



**CYNGOR TREF  
LLANFAIRFECHAN  
TOWN COUNCIL**



Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan  
LL330AB

01248681697 Clerc y Dref: jayne@llanfairfechan.net

**COFNODION CYFARFOD LLAWN Y CYNGOR TREF  
NOS FERCHER 8FED O RAGFYR 2021**

Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Cyng Christopher Jones; Maeres Penny Andow; Cyng Laura Fielding; Cyng Andrew Hinchliff; Cyng Claire Hughes; Cyng Nia Jones; Cyng Alun Rhys Jones; Cyng Gareth Wyn Jones; Cyng Delohne Merrell;

161. Croeso gan Gadeirydd y Cyfarfod

162. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldebau Cyng Christine Roberts; Cyng Carol Gell Penderfynwyd derbyn a nodi

163. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – yn unol â Chôd Ymddygiad Llywodraeth Leol

Datganodd Cyng A Hinchliff ei ran ar Bwyllgor Cynllunio CBSC ond cadarnhaodd bod modd iddo aros yn y cyfarfod os nad yw'n gwneud sylwadau ar ei fwriad i bleidleisio Penderfynwyd derbyn a nodi

164. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd:

Roedd Rheolwr Prosiect Llanfairfechan CBSC a Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd yn bresennol i rannu gwybodaeth am brosiect maes parcio ac amddiffyn llifogydd Promenâd Llanfairfechan. Bydd y prosiect Gwelliannau Amddiffynfeydd Arfordirol yn cynnwys ailstrwythuro'r maes parcio a newidiadau i wal y môr a mynediad at y traeth ac fe gafodd y ddau fater eu trin ar wahân:

**Eitem 1. Maes Parcio** – Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn dogfennau yn dangos mapiau o'r cynllun cychwynnol o Faes Parcio newydd y Promenâd. Bu eglurhad bod CBSC wedi llwyddo i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru fel rhan o arian y prosiect perygl llifogydd mwy ac, er bod hyn wedi achosi oedi wrth symud ymlaen, mae'n rhoi cyfle llawer gwell i gwrdd ag anghenion yr ardal a byddwn bellach yn symud ymlaen at y cynllun manwl a'r cam adeiladu yn y mis nesaf. O dan amodau cyllid Llywodraeth Cymru, bydd angen cwblhau caniatâd cynllunio a dylunio erbyn Mawrth 31ain sy'n rhoi 4 mis i ymgynghori gyda'r cyhoedd ac ar gyfer y prosesau cynllunio. Roedd hi'n amlwg y bydd gan y Cyngor Tref a'r trigolion gyfle i gynnig awgrymiadau i dîm CBSC eu hystyried.

Codwyd y cwestiynau canlynol gan yr aelodau etholedig:

1. A oes modd i rai o'r baeau parcio anabl fod ar flaen y maes parcio fel bod pobl yn gallu eistedd yn eu ceir i fwynhau'r golygfeydd?

Does dim rheswm pam na all baeau anabl gael eu symud i ganiatáu golygfa o wal y môr. Dyma'r union fath o awgrymiadau mae modd eu hystyried o fewn cynllun manwl y prosiect.

2. Oes arnom ni angen llwybr ar gyfer cerddwyr a beicwyr pan mae pobl yn defnyddio'r llwybr sy'n mynd ar hyd blaen y maes parcio?

Roedd llawer o'r aelodau etholedig yn erbyn y syniad o ddefnyddio llefydd parcio fel mynediad i gerddwyr gan eu bod yn ystyried bod mynediad da i gerddwyr eisoes o lwybrau cerdded y promenâd. Y teimlad oedd y dylid sicrhau'r mwyaf o lefydd parcio ag sydd bosibl a bu awgrym i ddefnyddio'r ardal o laswellt gaiff ei ddefnyddio'n anffurfiol yn barod fel 'glaswellt concriid' er mwyn caniatáu pobl i barcio arno ar adegau prysur. Byddai angen ymgynghori gyda'r cyhoedd ar hyn gan fod yr ardal yn cael ei ddefnyddio llawer ar gyfer gweithgareddau i deuluoedd.

3. A fydd y blwch ffôn yn cael ei symud i leoliad newydd? Os bydd, i ble?

Ni fydd y blwch ffôn yn cael ei symud.

4. A fydd y mannau gwefru trydanol wrth The Towers? Mae hon yn ardal sy'n dioddef o lifogydd yn draddodiadol felly a fydd yr amddiffynfeydd llifogydd newydd yn mynd i'r afael â'r broblem hon? Faint yn fwy o fannau gwefru trydanol gellir eu rhoi yno yn y dyfodol?

Bydd gwaith yn mynd rhagddo i wella'r system draenio a sicrhau bod yr ardal yn ddiogel ar gyfer mannau gwefru. Nodwyd y bydd rhyw faint o lifogydd yn yr ardaloedd ar yr arfordir o hyd ond bod modd cyfeirio'r llifogydd i ffwrdd o'r ardaloedd sensitif. Efallai bod modd ailgyfeirio'r llifogydd presennol tuag ar yr ardal o laswellt er mwyn lleihau tarfu ar geir. Mae'r nifer o fannau gwefru trydanol yn ffigwr mynegol ar y funud ac fe gaiff y dyfodol ei ystyried o ran cynnwys mwy o fannau gwefru. Mae awgrym wedi bod yn flaenorol y gellir gosod pibelli yn y meysydd parcio yn barod ar gyfer unrhyw fannau gwefru yn y dyfodol. Mae'r mater hwn yn broblemus yn ariannol yn bennaf gan fod costau gweithredu hyn nid yn unig yn cynnwys yr offer yn ei le ond gallu ehangach isadeiledd cyflenwi trydan i ymdopi gyda'r gofyn ychwanegol. Caiff hyn ei ymchwilio iddo'n iawn yn ystod y cam cynllunio manwl.

5. A oes darpariaeth ar gyfer cerbydau gwersylla?

Penderfyniad aelodau etholedig ydy hi os ydynt am ystyried a ydynt eisiau cynnig darpariaeth i gerbydau gwersylla ar y promenâd. Nodwyd y byddai mannau parcio penodol yn gorfod cynnwys darpariaeth dŵr/gwastraff a thrydan a gall fod ffi ynghlwm. Dylid cynnwys y mater hwn mewn ymgynghoriad cyhoeddus gan ei fod yn gallu bod yn fater cynhennus mewn ardal breswyl.

6. Palmant gyferbyn â Seagrass a mynediad a ffordd allan

Bu awgrym efallai y byddai'n fwy diogel cyflwyno system un ffordd i mewn wrth y fynedfa ger Seagrass ac yna allan ar hyd y ffordd bresennol o'r lanfa. Gellir ystyried hyn a bydd ymgynghoriad pellach gydag aelodau etholedig a defnyddwyr presennol yr ardal yn cyfrannu at y penderfyniad terfynol.

7. Beth yw'r amserlen ar gyfer y prosiect?

Cwblhau dylunio a chynllunio erbyn Mawrth 31<sup>ain</sup>. Pob trwydded a thendr mewn lle erbyn Ebrill 1<sup>af</sup>. Efallai bydd angen ystyried a ddylid cwblhau'r gwaith dros yr haf neu ddechrau yn nhymor yr hydref ar ôl prysurdeb yr haf. Eto, rhywbeth i'w gynnwys mewn ymgynghoriad cyhoeddus ac fe gaiff barn yr aelodau etholedig hefyd eu hystyried. Y broses gyllido ar gyfer yr holl Brosiect Amddiffynfeydd Arfordirol (sydd bellach yn cynnwys gwaith y maes parcio) fydd CBSC yn benthg yr arian i ymgymryd â'r gwaith ac yna bydd Llywodraeth Cymru yn talu 85% o'r costau yn ôl gyda CBSC yna'n gyfrifol am ddod o hyd i'r 15% sy'n weddill.

Nodwyd bod cynllun y maes parcio yn hir-ddisgwyliedig, ac mae hwn yn fater cynhennus iawn gyda'r trigolion. Nodwyd hefyd bod ansawdd y gwaith atgyweirio dros dro wedi bod yn wael iawn, a bu cwynion gan y trigolion. Roedd Swyddogion CBSC yn derbyn bod cyflwr presennol y maes parcio yn wael iawn. Cytunwyd mynd â'r mater hwn yn ôl at reolwyr ERF ar gyfer trafodaeth ynglŷn â gwaith atgyweirio dros dro byr dymor o fewn y tri i bedwar mis nesaf er mwyn sicrhau bod modd defnyddio'r maes parcio dros yr haf os caiff y gwaith ei ddal yn ôl.

8. Mae cwestiynau eraill ynglŷn â'r maes parcio fel talu ac arddangos, parcio dadleoli a pharcio i drigolion i'r tîm ERF fynd i'r afael â nhw.

Nodwyd bod angen ystyried y trigolion fel rhan o'r cynllun fel ei fod yn mynd drwy brosiect gaiff ei arwain gan CBSC. Bydd hyn yn sicrhau na fydd tâl i drigolion barcio wrth eu cartrefi ar hyd y promenâd. Bu arolwg gan y Cyngor Tref ar dalu ac arddangos yn 2016 ac mae'n hanfodol bod ymgynghoriad cyhoeddus pellach yn digwydd cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

Eitem 2. Prosiect Amddiffynfeydd Arfordirol. Y prif gynllun ar gyfer gwaith amddiffynfeydd arfordirol Llanfairfechan ydy codi'r wal o tua 33cm. Mae hyn yn golygu bod y prosiect yn eithaf syml ac efallai bydd modd ei weithredu heb darfu ar eraill a'r gobaith ydy bydd yr holl waith yn digwydd gyda'i gilydd. Nodwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus sylweddol wedi bod cyn paratoi'r prif gynnig ar gyfer Llywodraeth Cymru wnaeth ddigwydd yn Neuadd Gymunedol y Dref.

1. Mae mynediad at y traeth yn bryder enfawr i'r trigolion, ydy hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun?

Mae mynediad at y traeth yn broblem ar draws y sir, ac nid yw'n syndod gan fod gogledd Cymru i gyd yn arfordir artiffisial. Mae eiddo ar hyd Conwy sydd wedi'u hadeiladu mewn ardaloedd fyddai wedi bod yn rhan o draeth pe

baent wedi'u gadael i gynefino. Dywedwyd 'rydym wedi tynnu llinell lle ddylai'r môr fod'. Mae mynediad at y traeth yn flaenoriaeth ac fe gaiff ei gynnwys yn y cynllun – tydy ei ffurf heb ei benderfynu eto ond caiff ei gynnwys yn y cam dylunio manwl a bydd gan y trigolion ac aelodau etholedig gyfle i wneud sylwadau.

## 2. Cyfathrebu ac ymgynghori

Cytunwyd bod hyn am fod yn bwysig iawn yn ystod y prosiect. Bydd yr holl gynlluniau a gwybodaeth ar gael ar:

Prosiect Amddiffynfeydd Arfordirol Llanfairfechan Conwy. Gofynnodd Clerc y Dref hefyd am gopiâu papur i'w rhoi yn ffenestr Neuadd Gymunedol y Dref. Bydd y swyddogion yn dychwelyd i gyfarfodydd y Cyngor Tref yn rheolaidd yn ystod y cyfnodau o ddatblygu a gweithredu'r prosiect ac yn cysylltu gyda Chlerc y Dref i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael ei rhannu.

### Eitem 3. Gwaith brys i atgyweirio'r difrod i'r Cob.

Mae Cyngor Conwy wedi cyhoeddi'r datganiad hwn: Cafodd darn o wal y môr breifat ar hyd y Cob yn Llanfairfechan ei thorri yn ystod storm ar 5 Hydref 2021. Mae ffordd dramwy gyhoeddus y tu ôl i'r darn sydd wedi torri.

Ar 23 Tachwedd 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo cynnal gwaith atgyweirio brys i'r riprap gyda chost amcangyfrifedig o £275,000 ar gyfer y darn sydd wedi methu, gydag ymgais i gael y pres yn ôl yn amodol ar ddod o hyd i'r tirlfeddiannwr.

Bu difrod pellach gan stormydd ar ddiwedd mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr ac rydym wedi bod yn cynnal asesiadau ac arolygon strwythurol ychwanegol. Rydym yn cydnabod pa mor bwysig ydy'r llwybr cerdded i'r gymuned ac rydym eisiau sicrhau'r gwaith atgyweirio cyn gynted â phosibl.

Bu trafodaeth bellach a dywedodd Rheolwr Perygl Llifogydd ac Isadeiledd CBSC er mwyn i'r gwaith ddechrau mae angen cytundeb gan brosesau caffael CBSC i benodi contractwr. Mae hefyd angen datrysiaid ar gyfer problemau mynediad – mae'r ardal yn anodd ei chyrraedd gyda'r riprap ond efallai bod modd ei chyrraedd drwy'r môr neu ar hyd eiddo Network Rail neu ar hyd y traeth. Yn ychwanegol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am drwydded forol ar gyfer cynnal gwaith ar flaen y traeth. Mae CBSC yn dadlau pa mor frys ydy'r mater ac wedi nodi petai hwn yn dir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ni fyddai angen unrhyw drwydded a buasai pethau'n mynd rhagddynt yn syth.

Mewn ymateb i'r mater o berchnogaeth, nodwyd bod les wedi'i darganfod sy'n dangos mai'r Goron sy'n berchen ar y tir. Caiff yr wybodaeth hon ei rhannu gyda CBSC fel tystiolaeth.

Problem sylweddol gyda'r ardal hon ydy ei lefel o flaenoriaeth o ran cyllid gan Lywodraeth Cymru. Gyda'r un eiddo preswyl neu fusnes gerllaw, efallai caiff ei hasesu fel blaenoriaeth isel, a dyna pam mae hi wedi bod yn anodd derbyn arian. Mae CBSC yn ymchwilio i'r holl ddewisiadau. Mae angen nodi bod Cabinet CBSC wedi cytuno y dylai'r gwaith fynd yn ei flaen gan fynd ar ôl perchennog y tir am ad-daliad unwaith bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Rhywbeth cadarnhaol ydy bod Network Rail wedi cydnabod y bygythiad posibl i'w cysylltiad cludiant ac wedi cytuno bod angen i'r gwaith gael ei wneud cyn gynted â phosibl.

Dyma'r sylwadau gan aelodau etholedig:

1. Ni ellir tanseilio'r angen i gyfathrebu gyda diweddariadau yn ddyddiol. Mae angen gosod dyddiadau gorffen fel bod y trigolion yn gwybod bod y gwaith yn cael ei ymgymryd ag o.

Bydd yr holl wybodaeth ar gael ar wefan Prosiect Amddiffynfeydd Arfordirol Llanfairfechan Conwy

a bydd swyddogion CBSC mewn cysylltiad gyda Chlerc y Dref fel bod modd rhannu'r wybodaeth drwy e-bost.

2. Mae'n siomedig na chafodd y gwaith ei wneud pan gafodd ei adnabod gyntaf fel problem. Mae'r trigolion yn teimlo bod Llanfairfechan yn gymuned sydd wedi'i anghofio ac mae gwir rwystredigaeth bod ein dau ased naturiol gwerthfawr Nant y Coed a Glan y Môr Elias ar gau oherwydd y diffyg gofal ar lefel rwystrol. Mae hon yn ardal hyfryd, ac mae'n cael ei hesgeuluso. Mae rhwystredigaeth sylweddol ymysg yr aelodau etholedig a'r trigolion.

Mae wedi bod yn ardal broblemus oherwydd y broblem o berchnogaeth ac mae CBSC yn ymrwymo i ddiweddarau pawb trwy'r broses gwaith sydd wedi'i chynllunio

3. Amserlenni – ydy'r gwaith am gael ei gwblhau cyn i'r problemau perchnogaeth a chyllid gael eu datrys?

Ydy, fel sydd wedi'i nodi, mae Cabinet CBSC wedi cytuno i'r gwaith brys ddigwydd mor fuan ag sydd bosibl. Dylid nodi, er ei fod wedi heneiddio, mae hwn yn strwythur gwael ac roedd wastad am fod yn broblemus yn y dyfodol. Mae llenwad llac y wal wedi arwain at ddŵr yn mynd i mewn yn gyson sydd wedi gwisgo'r strwythur o'r tu mewn. Dywedodd y swyddogion eu bod yn gobeithio caiff rhyw faint o'r gwaith ei ddechrau cyn y Nadolig, ond bydd hyn yn dibynnu ar ganiatâd trwydded forol, datrys y problemau mynediad a chaffael contractwyr.

4. Roedd Clerc y Dref wedi anfon e-bost yn flaenorol ynglŷn â chaniatâd ar gyfer y Ras Siôn Corn ac wedi gofyn am ddiweddariad

Bydd CBSC yn dod yn ôl atom i gytuno'n ffurfiol ond mae'n debyg nad oes unrhyw broblem gyda'r rhedwyr yn defnyddio'r llwybr cerdded hyd at y giât os bydd marsialyddion yn bresennol. Mewn ymateb i ymholiad pellach ynghylch a fydd y rhan ohono o'r llwybr yn aros ar agor, bydd gwybodaeth yn dilyn.

Diolchwyd i'r swyddogion am fynychu a bu i bawb gytuno y byddem yn cydweithio'n agos yn ystod cyfnod y prosiectau ac fe gaiff yr holl gyfathrebu ei rannu gyda phawb sydd ynghlwm. Penderfynwyd derbyn a nodi.

165. Derbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod 24<sup>ain</sup> o Dachwedd 2021 a Rhestr Weithredu 8<sup>fed</sup> o Ragfyr 2021 Roedd y cofnodion wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi'u nodi wedi'u darllen. Dim materion yn codi.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng D Merrell Yn unfrydol Penderfynwyd derbyn a nodi

Rhestr Weithredu wedi'i thrafod fel a ganlyn:

Rhestr Weithredu a Gwybodaeth ar gyfer yr 8fed o Ragfyr 2021 Cyngor Tref Llanfairfechan Lefel Rybuddio Lefel 1 Covid-19 dal yn weithredol. Amrywiolyn Omicron Covid-19 wedi'i adnabod					
	Eitem	Cam Gweithredu		Dyddiad	Cyfeirnod ERF
1	Offer parc chwarae	Parc chwarae wedi'i gwblhau. Cais wedi'i anfon i drefnu i dynnu llun	Dal i aros	03/12/2021	
2	Adolygiad parcio	Gweithio tuag at ddyddiad hysbysebu o 01/12/21 gyda dyddiad gweithredu o 06/12/21	Wedi derbyn e-bost	23/11/2021	
3	Maes parcio Nant y Pandy	CBSC gyda hawliau datblygu a ganiateir ac yn gallu trosglwyddo'r hawliau hynny i'r Cyngor Tref	Dal i aros	Deiliant	
4	Maes parcio'r promenâd	Ar yr agenda		22/11/2021	
5	Gwybodaeth Plas Menai	Adroddiad yn Eitem 13			
6	Partneriaeth Cynllunio Cymunedol	Cytuno ar ddyddiad cyfarfod newydd ym mis Ionawr. Awgrymu sesiwn galw heibio gydag asiantaethau partner	I'w	drafod	
7	Tipio Anghyfreithlon ym maes parcio Ffordd yr Orsaf	Heb fynd yn ei flaen oherwydd pwysau llwyth gwaith	I'w	drafod	
8	Prosiect cyffordd yr A55	Ymholiad cyhoeddus bellach wedi'i ohirio. Oedi gyda'r prosiect hyd nes y clywir yn wahanol.	Oedi	Oedi	
12	Nant y Coed	Gwaith dros dro yn parhau – e-bost yn rhannu gwybodaeth. Datganiad gan Cyngor Conwy ar Facebook.	Wedi anfon e-bost	22/11/2021	
13	Difrod i'r arwydd digidol	Yr arwydd wedi'i gasglu ac yn cael ei drwsio – aros am ddiweddariad	Wedi anfon e-bost	08/12/2021	
16	Gŵyl y Gaeaf Llanfairfechan	Archebu dyddiadau y flwyddyn nesaf – Heath fel safle posibl ar gyfer y ffair er mwyn lleihau unrhyw darfu ar y ffordd	I'w	drafod	
17	Diffib ac offer diogelwch	Cyfarfod newydd heb ei gynnal eto oherwydd pwysau llwyth gwaith	I'w	drafod	
18	Troli cyfryngau	Offer bellach wedi'i ddanfôn ac yn aros iddo gael ei osod			
19	Senotaff	Archebu llechi yn y flwyddyn newydd	oedi	oedi	
20	Meinciau a chlirio'r Cob	Gwaith clirio wedi digwydd ond angen symud ymlaen gyda'r prosiect meinciau	I'w	drafod	
21	Prosiect Cysgodfan	Cysgodfan crwn, cytiau traeth a chysgodfan y lanfa	I'w	drafod	
22	Cais Sinema Awyr Agored	Awgrym gan y trigolion – gall gael ei gynnal yn The Heath	I'w	drafod	
23	Marchnadoedd Bwyd ac Artisan	Ailfrandio Marchnad Cynnyrch Lleol Llanfairfechan dyddiadau arfaethedig	I'w	drafod	
24	Cyfarfod Archebiant a Chyllid	Angen ei archebu fel bod modd cyflwyno'r Archebiant terfynol Dydd Gwener Ionawr 22ain	I'w	drafod	
25	Cyfarfodydd yn y flwyddyn newydd	A ddylem ddychwelyd i'r Siambr yn y flwyddyn newydd?	I'w	drafod	

**Eitem 1 Offer parc chwarae.** Mae bellach wedi'i osod yn y Maes Chwarae a Gerddi Fictoria a bydd ar agor unwaith bydd yr hadau glaswellt wedi cydied. Mae'r Clerc wedi gofyn am gyfle i dynnu llun gyda CBSC er mwyn dathlu'r prosiect partneriaeth.

**Eitem 6 Partneriaeth Cynllunio Cymunedol - Cafodd y sesiwn Diogelwch y Gymuned ddiweddar ei gohirio oherwydd yr amrywiolyn newydd a phwysau gwaith staff.** Mae sesiwn newydd wedi'i threfnu ar gyfer y flwyddyn newydd a bydd yn debycach i ddull galw heibio, o bosibl yn gysylltiedig â'r diwrnod marchnad

**Eitem 7 Tipio anghyfreithlon ym maes parcio Ffordd yr Orsaf – Mae'r eitem hon wedi'i hoedi oherwydd pwysau gwaith staff.** Nodwyd bod rhai trigolion yn teimlo mai'r unig ffordd ymlaen ydy gosod camerâu CCTV yn yr ardal. Y Clerc i ymchwilio i hyn ac adrodd yn ôl. Dylem nodi bod hon yn broblem hir sefydlog sydd ar fynd ers sawl mlynedd

**Eitem 16 Gŵyl y Gaeaf Llanfairfechan – Awgrym i gynnal y ffair yng Ngŵyl y Gaeaf 2022 yn The Heath er mwyn lleihau unrhyw amharu ar y ffordd.** Y Clerc i gysylltu gyda CBSC i drafod.

**Eitem 17 Diffib ac offer diogelwch – Mae'r diffib wedi'i archebu.** Caiff y grŵp hwn ei ailgynnull yn y flwyddyn newydd gan fod Clerc y Dref am gymryd gwyliau blynyddol hwyr ac am ddychwelyd ar Ionawr y 3ydd.

**Eitem 20 & 21 Prosiect meinciau, cysgodfannau a chlirio'r cob – Mae'r cob wedi'i glirio gan gontractwr PROW.** Y prosiect i aildechrau yn y flwyddyn newydd

**Eitem 22 Cais am Sinema Awyr Agored – Y Clerc i holi CBSC ynghylch hyn**

**Eitem 23 Marchnadoedd Bwyd ac Artisan – y poster yn cael ei wneud yn barod i fynd allan cyn y Nadolig.** Marchnadoedd wedi'u harchebu ar gyfer mis Ionawr, Chwefror a Mawrth gydag amrywiaeth eang o stondinwyr.

**Eitem 24 Cyfarfod Archebiant a Chyllid - Mae angen cwblhau'r archebiant erbyn dydd Gwener Ionawr 21ain.** Cyfarfod Cyllid wedi'i drefnu ar gyfer wythnos gyntaf mis Ionawr ac angen ei arwyddo a'i gytuno yng nghyfarfod Ionawr y 12fed

**Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng D Merrell Yn unfrydol**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**166. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth am amrywiolyn Omicron Covid-19 a mesurau i helpu'r Cyngor Tref weithredu yn ystod y pandemig**

### **1. Tîm Rheoli Argyfwng**

Mae'r tîm o staff wedi ei chael yn anodd ymdopi gyda'r llwyth gwaith oherwydd pandemig Covid-19 a'r gofynion asesu risg ychwanegol, ymholiadau ffôn ac anfodlonrwydd cyffredinol. Mae'n gyfnod eithriadol o anodd wrth i ganllawiau Covid-19 bellach rhoi'r holl gyfrifoldeb ar fudiadau i osod eu hasesiadau risg eu hunain yn wyneb y nifer cynyddol o achosion. Nodwyd bod y pandemig ymhell o fod drosodd ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth y DU wedi mynd yn ôl at Gynllun B yn wyneb yr amrywiolyn Omicron newydd. Cytunwyd gwneud cais bod y Tîm Rheoli Argyfwng yn dechrau cyfarfod yn rheolaidd eto i gynnig cefnogaeth.

### **2. Prosiect Cefnogaeth ar y Stryd**

Roedd adroddiad wedi'i gylchredeg cyn y cyfarfod. Cafodd y prosiect cefnogaeth ar y stryd ei sefydlu gan y Tîm Rheoli Argyfwng a'i lansio ar y 26ain o Fawrth 2020, ac rydym wedi helpu dros 180 o drigolion gyda 904 o dasgau wedi'u cwblhau yn ystod cyfnod yr holl bandemig o fis Mawrth 2020 at fis Mehefin 2021. Staff y Cyngor Tref yn bennaf sydd wedi ymgymryd â'r gwaith yma ac mae'r rhan fwyaf wedi bod trwy ein trefniant danfon presgripsiwn gyda fferyllfa Boots.

Caiff presgripsiynau eu danfon unwaith yr wythnos ar y funud, ond, gyda'r nifer yn cynyddu unwaith eto, caiff hyn ei adolygu gan y Tîm Rheoli Argyfwng yn y flwyddyn newydd yn unol â ffigyrau Covid-19. Efallai bydd angen cynyddu'r gwasanaeth unwaith eto ac, os felly, bydd angen i'r Clerc weithredu galwad am wirfoddolwyr i helpu gan fod y staff eisoes yn gweithio at eu capasiti ar y funud.

### **3. Troli Cyfryngau a chyfarfodydd y Cyngor Tref**

Mae'r offer wedi'i ddanfôn ar ôl y broblem gychwynnol lle doedd y camera gwe heb ei gynnwys. Bydd wedi'i osod ac yn barod ar gyfer y flwyddyn newydd. Fodd bynnag, oherwydd yr amrywiolyn newydd, bydd y Cyngor Tref yn parhau i gyfarfod dros Zoom ym mis Ionawr ac yn ailasesu ar gyfer cyfarfod mis Chwefror.

167. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth a chynlluniau o gyfarfod y grŵp Tasg a Gorffen Cyfryngau Cymdeithasol ar Ragfyr y 1af 2021

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen wedi cyfarfod ac wedi gosod tri phwynt gweithredu:

1. Ffurio pwyllgor cyfathrebu
2. Cynhyrchu rhaglen gyfathrebu yn flynyddol
3. Newid yr enw Llanfairfechan yn Dathlu i Gyngor Tref Llanfairfechan Town Council

Cytunwyd y byddai Cyng Claire Hughes, Cyng Laura Fielding a Swyddog Prosiectau Cymunedol Kirsty Merrell Daily yn aelodau'r grŵp. Roedd y grŵp wedi trafod ffyrdd newydd o gyfathrebu fel gosod blychau awgrymiadau o gwmpas y pentref a chylchlythron rheolaidd. Gofynnodd y grŵp hefyd i gael datblygu ffordd o danysgrifio i'w he-byst ar y wefan fel bod modd i'r trigolion ymuno â'r rhestr bostio yn ffurfiol. Nodwyd bod llawer o bethau drwg wedi bod yn y wasg yn ddiweddar a bod angen i'r Cyngor Tref fod 100% yn well gydag unrhyw gyfathrebu. Dywedodd y Cynghorwyr eu bod bellach am helpu i rannu gwybodaeth, a dylai hyn wella pethau ar gyfer y dyfodol. Tydy rhai Cynghorwyr heb fod yn gweld yr wybodaeth sydd wedi'i rhannu yn flaenrol ac efallai bod hynny oherwydd algorithm Facebook. Mae'n bwysig bod yr holl Cynghorwyr yn 'hoffi' tudalen Facebook Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council ac yn rhannu unrhyw beth gaiff ei rannu arno yn y dyfodol. Bu pleidlais yn y cyfarfod diwethaf ac fe gytunwyd y dylid mynd ymlaen gyda'r grŵp. Penderfynwyd derbyn a nodi.

168. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth a chynlluniau i ddathlu'r gwaith yn y Maes Chwarae a Gerddi Fictoria Wedi'i drafod yn Eitem 4 ar yr agenda Penderfynwyd derbyn a nodi

169. Derbyn a chymeradwyo gwybodaeth am Lwfans Cynghorwyr

Bydd Clerc y Dref yn talu'r Lwfans Blynnyddol i Cynghorwyr o £150 yng nghyfarfod mis Ionawr. Cafodd aelodau etholedig eu hatgoffa bod penderfyniad wedi'i wneud yn flaenrol bod pob Cynghorydd am dderbyn y lwfans. Mae hwn yn lwfans gorfodol gan Lywodraeth Cymru i annog demograffig eang o drigolion i fod yn rhan o ddemocratiaeth leol. Dyma'r unig arian y mae Cynghorwyr Tref yn ei dderbyn a'i fwriad ydy helpu gyda chostau sydd ynghlwm â galwadau ffôn, cludiant ac eitemau sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn cynrychioli'r etholaeth. Mae llawer o Cynghorwyr yn rhoi'r arian hwn yn uniongyrchol fel rhodd i elusennau lleol a grwpiau cymunedol lle bo'n bosibl. Bydd y Clerc yn anfon ffurflen fanlyon i'r Cynghorwyr i wirio bod eu manylion personol yn gywir gan fod y lwfans hwn yn drethadwy. Penderfynwyd derbyn a nodi

170. Derbyn a chymeradwyo Adroddiadau Cyllid mis Rhagfyr

Roedd y Cynghorwyr wedi derbyn y dogfennau hyn yn flaenrol ond gan fod aelodau o'r cyhoedd yn bresennol cafodd y dogfennau eu rhannu ar y sgrin. Caiff adroddiad arian mân ei rannu yn y cyfarfod nesaf a bydd cais ar gyfer £100 o arian mân.

Cynigydd Cyng A Hinchliff Eilydd Cyng D Merrell Yn unfrydol

Penderfynwyd derbyn a nodi

171. Derbyn a chymeradwyo taliadau mis Rhagfyr 2021

1. Cyflogau Staff a chyfraniadau pensiwn gweithwyr a chyflogwr £4700.00 (yn cynnwys arian Byw'n Dda)
2. Ad-dalu Clerc y Dref am y calonnau pren i'r ysgol £25.00
3. Lwfans y Cynghorwyr 2021 – 22. 11 x £150 (wedi'i gytuno'n flaenrol, er mwyn bod yn gyfartal, y bydd pob aelod etholedig yn derbyn eu lwfans. Mae llawer o aelodau etholedig yna'n rhoi eu lwfans o £150 fel rhodd i elusen)
4. Pedro Griffiths ffens i'r coed wedi'u gwneud â llaw £320.00 (ôl-ddyddiedig)
5. Running Imp medalau Siôn Corn grant s137 £200.99 (ôl-ddyddiedig)
6. Sgipiau CBSC £552.00 (ôl-ddyddiedig)
7. Coed Nadolig Glan Conwy (tu allan) £45.00 (ôl-ddyddiedig)
8. Taliadau torchau'r Llang Brydeinig Frenhinol £439.00. £139.00 ar gyfer y torchau a chyfraniad o £300 fel rhodd o Lwfans y Maer (siec ôl-ddyddiedig 102355)

172. Trafod materion cynllunio

173. 0/49107 118 Gorwel Llanfairfechan LL33 ODR

Trafodwyd hyn ac nid oedd unrhyw sylwadau ffurfiol ac eithrio cytuno y dylai'r ymgeisydd ddilyn darganfyddiadau ac awgrymiadau Swyddogion Cynllunio CBSC

Penderfynwyd derbyn a nodi

174. Derbyn gohebiaeth – yn ystod pandemig Covid-19 caiff y rhan fwyaf o ohebiaeth ei rhannu dros ebost

1. Ymholiad ynglŷn â mesurau rheoli traffig gan y ddwy ysgol

Nodwyd nad oes gan CBSC bellach bolisi o osod gwrymau arafu (*speed bumps*) ar ffyrdd oherwydd y difrod maent yn eu hachosi i geir. Fodd bynnag, mae rheolwyr ERF wedi cyhoeddi eu bod yn cyflwyno cyfyngiadau 20 milltir yr awr yn raddol ym mhob ardal breswyl ac felly mae'n debyg y bydd y cyfyngiadau hyn yn yr holl bentref yn y dyfodol agos. Mae hyn i hyrwyddo ffyrdd o deithio sy'n fwy actif i bobl a chanolbwyntio ar ddiogelwch cerddwyr. Nodwyd y bydd hyn yn gweithio dim ond os bydd mwy o batrolio yn yr ardal, rhywbeth sy'n amhoblogaidd gyda'r boblogaeth leol. Fodd bynnag, mae diogelwch yn yr ysgolion o'r pwys mwyaf a, fel sydd wedi'i nodi yn barod gan y Cyngor Tref, cytunwyd bod yr ardaloedd yn beryglus ac yn bryderus iawn. Y Clerc i gysylltu gyda CBSC i ofyn am fwy o waith gan y wardeiniaid yn ystod amser ysgol a hefyd i gysylltu gyda'r SCCH (*PCSO*) i drafod y mater. Penderfynwyd derbyn a nodi.

175. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd

1. Cyfarfod am gais grant arfaethedig Glan y Môr Elias

Bu i'r Cyng Alun Rhys Jones adrodd ar gyfarfod gyda CBSC i drafod cyfle am gais cyllid i ddatblygu llwybr dehongli ar hyd Glan y Môr Elias. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am natur a byrddau am y cadwyni o fynyddoedd.

Y cam cyntaf ydy datgan diddordeb a gellir ffurfio grŵp i drafod hyn yn y flwyddyn newydd. Mae'r cais llawn yn gofyn am gynnwys costau llawn ac arian cyfatebol o 14.4%. Mae llawer o syniadau eraill all fod yn gysylltiedig - arwyddion ac adnewyddu'r cysgodfan wrth y bont droed ac uwchraddio'r guddfan adar.

2. Cyfarfod gyda Meddygfa Plas Menai

Roedd Cyng Delohne Merrell wedi mynychu cyfarfod gyda Rheolwr y Feddygfa Richard Marriot ym Meddygfa Plas Menai ynghyd â Chyng Myfanwy Baines o Gyngor Tref Penmaenmawr. Nodwyd bod y feddygfa wedi ennill cynnig llwyddiannus i Ymddiriedolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gymryd tair meddygfa drosodd yng Nghonwy. Bydd hyn yn cynyddu poblogaeth y cleifion i 15,000. Bu iddo roi sicrwydd na fyddai hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr o gwbl oherwydd bydd y meddygfeydd yn parhau i gael eu rhedeg fel endidau ar wahân. Mae'r feddygfa wedi ymrwymo i gyfarfodydd adrodd yn ôl bob mis er mwyn adolygu'r holl feddygfa a datblygiadau'r gwasanaeth. Bydd pob claf yn derbyn llythyr yn y flwyddyn newydd gyda manylion y prosiect. Dylid cofio bod meddygfeydd Meddyg Teulu yn fusnesau, ac mae hyn eisoes wedi'i gymeradwyo gan y bwrdd iechyd. Nid yw'r datblygiad hwn yn rhywbeth gellir ei newid drwy bwysau gan y cyhoedd. Yn syml bydd yn golygu monitro unrhyw drefniadau newydd ac adrodd unrhyw sylwadau yn ôl drwy'r holiaduron cyffredinol i gleifion, Grŵp Ymgysylltu â Chleifion, neu gysylltiadau'r Cyngor Tref. Mae'r Cyngor Tref yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda'r feddygfa i sicrhau'r gwasanaeth gorau i drigolion y pentref. Mae Rheolwr y Feddygfa wedi'i wahodd i'n cyfarfod ar Ionawr y 12fed ac fe gaiff trefniadau terfynol eu rhannu yn y flwyddyn newydd.

3. Cyfarfod Darganfod Llanfairfechan

Roedd y grŵp wedi printio 300 calendr ac oherwydd llwyddiant y gwerthiannau yng Ngŵyl y Gaeaf a gwerthiant da yn y siopau Nisa, mae dros 200 calendr wedi'u gwerthu. Mae hyn yn golygu y bydd digon o arian i gynhyrchu calendr ar gyfer y flwyddyn nesaf heb orfod gofyn am grant gan y Cyngor Tref. Penderfynwyd derbyn a nodi

176. Derbyn sylwadau a chanmoliaethau brys

1. Adrodd bod y diwrnod hyfforddiant Creu Lleuedd gan Un Llais Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg aeth Cyng A Alun Rhys Jones iddo yn ddiweddar wedi bod yn dda iawn ac i'w argymhell i gynghorwyr eraill. Caiff syniadau o'r sesiwn eu rhannu gyda'r grŵp cyfathrebu

2. Adrodd ar ddŵr yn rhedeg o gartref ar Ffordd y Pentref – mae hyn wedi'i adrodd amdano yn flaenorol ond y Clerc i fynd ar ôl yr ymholiad gyda Dŵr Cymru
3. Cwestiwn ynghylch gwaith atgyweirio Nant y Coed. Mae'r trigolion dal yn anhapus iawn ynglŷn â'r sefyllfa Mae adroddiad wedi'i rannu gan y Cynghorydd Sir a CBSC. Mae'r prosiect atgyweirio llawn wedi'i oedi oherwydd tymhorau caniatool Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r gwaith dros dro yn cael ei gwblhau i sicrhau bod modd cyrraedd at yr ardal yn y tymor byr
4. Mae trigolyn wedi adrodd bod y llinellau newydd yng Ngorwel yn achosi problemau. Y teimlad ydy bod angen eu hymestyn ar un ochr er mwyn gwella diogelwch. Y Clerc i ymchwilio ac adrodd am y mater i CBSC. Fodd bynnag, nodwyd mai dyma oedd y cynllun oedd wedi'i gytuno arno yn flaenorol gan y Cyngor Tref a CBSC oedd yn ymddangos fel ateb da i'r broblem.
5. Adrodd bod y gwaith llifogydd oedd wedi'i gwblhau ar Ffordd Aber bellach wedi gorffen. Fodd bynnag, yn y stormydd yr wythnos ddiwethaf, roedd dŵr llonydd unwaith eto, er mewn lle gwahanol.
6. Diolchwyd i Glerc y Dref am eu gwaith yn ystod y ddau fis anodd diwethaf.  
Dymunodd Gadeirydd y cyfarfod Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a chau'r cyfarfod am 21:44.

Tydy'r Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol Jayne Neal bellach ddim ar gael i dderbyn unrhyw ymholiadau tan Ddydd Llun Ionawr 3ydd 2022

Mae modd anfon ymholiadau brys at [swyddfa@lanfairfechan.net](mailto:swyddfa@lanfairfechan.net) neu ffoniwch 01248681697

Dydd Llun 13<sup>eg</sup> o Ragfyr i Ddydd Mercher 15<sup>fed</sup> o Ragfyr

Swyddfa'r Cyngor Tref wedi cau o Ddydd Iau 16<sup>eg</sup> o Ragfyr tan Dydd Sul 2<sup>il</sup> o Ionawr

Mae modd cyfeirio materion ERF brys at CBSC

<https://www.conwy.gov.uk/en/Resident/Report-Pay-Apply/Report-it/Emergencies.aspx>